

Ffurflen gwyno yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad



**Ombwdsmon
Ombudsman**
Cymru • Wales

Defnyddiwch inc du os oes modd a nodwch eich enw mewn LLYTHRENNAU BRAS.

A Eich manylion

Enw a Theitl

Cyfeiriad a Chod post

Ebost*

Rhif ffôn cyswllt yn ystod y dydd Rhif ffôn symudol

Sut hoffech chi i ni gysylltu â chi? Ebost Post Ffôn

Dewiswch eich iaith ddewisol ar gyfer cyfathrebu â ni. Saesneg Cymraeg

* Mae ebost yn ffordd gyflym ac effeithlon o gyfathrebu, ond fe ddylech chi fod yn ymwybodol bod risg fach bob amser o negeseuon yn cael eu rhyng-gipio. Fel rhagofal, byddwn yn anfon gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol drwy ebost diogel Microsoft 365 wedi'i amgryptio. Mae rhagor o fanylion ar gael ar ein gwefan.

Weithiau, byddwn yn derbyn cwynion na allwn edrych arnynt. Gallai pobl fod yn anhapus pan fydd rhaid i ni ddweud hyn wrthynt. Er mwyn osgoi cael eich siomi, cyn cyflwyno'ch cwyn, mae'n ddefnyddiol os gallwch chi feddwl am sut mae'r aelod rydych chi yn cwyno amdano wedi torri'r Cod Ymddygiad. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y [Cod Ymddygiad ar dudalen Canllawiau /Polisiau](#) ar ein gwefan. Rydym hefyd yn argemell eich bod yn darllen y taflenni ffeithiau canlynol ar ein gwefan:

- [Cod Ymddygiad – Gwybodaeth Gyffredinol](#)
- [Cod Ymddygiad – Beth rydym ni'n ei wneud ar ôl cael eich cwyn](#)
- [Cod Ymddygiad – Asesu budd y cyhoedd](#)

Mae'n bwysig darparu cymaint o dystiolaeth uniongyrchol â phosibl er mwyn cefnogi unrhyw gŵyn, yn ogystal ag enwau a manylion cyswllt unrhyw dystion sy'n berthnasol i'ch cwyn.

Fel rheol, dylai'r person sydd wedi profi'r broblem lenwi'r ffurflen. Os ydych yn llenwi'r ffurflen ar ran rhywun arall, llenwch adran B.

B Gwneud cwyn ar ran rhywun arall: eu manylion

Eu henw yn llawn

Cyfeiriad a Chod Post

Beth yw eich perthynas â hwy?

Pam ydych yn gwneud cwyn ar eu rhan?

Ebost*

Rhif Cyswllt yn ystod y dydd Rhif ffôn symudol

Parhewch dros y dudalen

Ffurflen gwyno yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad

Parhad

Awdurdodiad

Os ydych yn cwyno ar ran rhywun arall, mae rhaid iddynt lofnodi yma os ydynt yn gallu gwneud hynny. Os nad ydynt yn gallu gwneud hynny, esboniwch pam.

Dylech hefyd eu darparu â'r [Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Achwynwyr & Chynrychiolwyr](#), er mwyn sicrhau eu bod yn deall y ffordd y prosesir eu gwybodaeth bersonol. Byddwn yn tybio eich bod chi wedi eu darparu â'r hysbysiad.

Rwy'n awdurdodi'r person a restrir uchod (adran A) i weithredu ar fy rhan wrth gyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru. Rwy'n deall y gallai hyn olygu y bydd fy nghynrychiolydd yn gallu cael mynediad at fy ngwybodaeth bersonol neu at wybodaeth bersonol sensitif amdanaf a gafwyd ar gyfer un o'r dibenion hyn. access my personal or sensitive personal information obtained for one of these purposes.

Eu llofnod

Dyddiad

C Am bwy ydych chi'n cwyno?

Enw'r aelodrydych chi'n ystyried ei fod wedi torri'r cod ymddygiad. Os yw eich cwyn yn ymwneud â mwy nag un aelod, bydd angen i chi cyflwyno ffurflen gwyno ar wahân ar gyfer pob un.

Enw'r awdurdod

Esboniwch ym mha ffordd mae'r unigolyn wedi torri'r Cod Ymddygiad. Dywedwch pha neu cyfeiriwch at y paragraffau o'r "Cod" rydych chi'n meddwl y maen nhw wedi torri. Hefyd, dylech gynnwys enwau a manylion cyswllt unrhyw dystion sy'n berthnasol i'ch cwyn.*

Ffurflen gwyno yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad

Parhad

Dogfennau ategol

Wrth gyflwyno cwyn ini bod aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad, mae'n hanfodol darparu cymaint o dystiolaeth uniongyrchol â phosib i gefnogi unrhyw gŵyn.

Diwallu eich anghenion

Rhowch wybod i ni os ydych angen i ni addasu'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu â chi. Os yw unrhyw beth yn ei gwneud hi'n anodd i chi ddefnyddio ein gwasanaeth, er enghraifft, os oes gennych anabledd, esboniwch yn yr adran isod.

Rydym yn ystyried ai yw eich cais yn rhesymol ac addas yn yr amgylchiadau. Mae hyn oherwydd mae angen i ni ddefnyddio arian cyhoeddus yn ofalus.

Os nad oes angen unrhyw gymorth arnoch, gadewch yr adran hon yn wag.

Caniatâd

Rwy'n dymuno i'r Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru ystyried fy nghwyn. Rwy'n deall y gallai fy ffurflen gwyno ar holl ddeunydd a gyflwynir gyda hi (gan gynnwys fy hunaniaeth) gael ei datgelu'n llawn i'r aelod rwy'n gwneud cwyn yn ei erbyn, ac y gallai'r wybodaeth hon ddod yn wybodaeth gyhoeddus. Fel rheol, bydd yr wybodaeth hon hefyd yn cael ei datgelu i'r Swyddog Monitro a Chlerc y Cyngor priodol (lle bo'n berthnasol).

Rwy'n deall y gallai fod yn ofynnol i mi roi tystiolaeth lafar yn gyhoeddus i ategu fy nghwyn gerbron Pwyllgor Safonau'r awdurdod, neu gerbron unrhyw dribiwnlys achos a all gael ei benodi i ystyried unrhyw adroddiad y gall yr Ombwdsmon ei gyhoeddi os bydd yn penderfynu ymchwilio i'm cwyn.

Llofnod

Dyddiad

Wrth ystyried eich cwyn, byddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol. Mae gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol ar gael yn yr Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Achwynwyr a Chynrychiolwyr. Mae copi o'r hysbysiad hwn hefyd ar gael ar ein gwefan yn www.ombwdsmon.cymru/hysbysiad-preifatrwydd/

Anfonwch y ffurflen hon wedi ei llenwi at:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Ffôn: **0300 790 0203** (cost galwad lleol) Email: **holwch@ombwdsmon.cymru** Fax: **01656 641199**